| | | |
|---|---|---|
| **Teitl Swydd:**<br>Hwylusydd Ymgysylltu â'r Gymuned | **Lleoliad:**<br>Hybrid - Gweithio o adref / Porthmadog neu MSParc<br>gyda theithio rheolaidd i Dde Gwynedd a'r ardaloedd cyfagos | Busnes Cymru \| Business Wales |
| **Yn atebol i:**<br>Cyfarwyddwr Prosiectau | **Oriau gwaith:**<br>18.5 awr yr wythnos (patrwm gweithio i'w drafod) | **Band cyflog:**<br>£26,475 - £30,888 pro rata |

**Cefndir y Swydd:**

Mae Menter Môn, mewn partneriaeth â Busnes in Focus a M-SParc wedi ennill cytundeb i ddarparu gwasanaeth Busnes Cymru. Gyda'n gilydd, rydym yn cael ein galw'n Bartneriaeth Fenter Cymru (EPC), a byddwn yn darparu cyngor a chymorth ar ran Llywodraeth Cymru i entrepreneuriaid led led Cymru.

Llwyddodd EPC yn eu cais i ddarparu gwasanaethau cynghori Busnes Cymru; Gwasanaeth Entrepreneuriaeth a Chychwyn Busnes a Gwasanaeth Datblygu Busnes a Thwf.

Mae'r gwasanaeth Entrepreneuriaeth a Dechrau Busnes yn canolbwyntio ar ddarparu ystod eang o gyngor i bobl ifanc a busnesau newydd drwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys cymorth digidol, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.

**Pwrpas y Swydd:**

Mae'r Hwylusydd Ymgysylltu â'r Gymuned (CEF) yn rhan o'r Tîm Ymgysylltu â'r Gymuned, sy'n darparu rhaglen hygyrch ac arloesol o weithgareddau ymgysylltu ac allgymorth ar gyfer grŵp cleientiaid amrywiol.

Mae'r Hwylusydd yn hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu syniadau entrepreneuraidd ac yn annog cyfranogwyr i ymgysylltu â gwasanaeth Busnes Cymru, er mwyn galluogi pobl i wireddu uchelgeisiau entrepreneuraidd, drwy amrywiaeth eang o weithgareddau ymgysylltu digidol ac wyneb yn wyneb sy'n cael eu cydlynu'n rhanbarthol, e.e. cyflwyno modiwlau uwchsgilio a meithrin ymwybyddiaeth cyn cychwyn, a digwyddiadau allgymorth, e.e. arddangosfeydd gyrfaoedd, ar y cyd ag ecosystemau a rhanddeiliaid Pobl Ifanc ac entrepreneuraidd sefydledig.

Mae'r Hwylusydd yn darparu a/neu'n hwyluso cymorth cofleidiol i gleientiaid, gan alluogi portffolio amrywiol o gleientiaid i oresgyn rhwystrau a chael profiad teg o ran gwireddu uchelgeisiau entrepreneuraidd. Mae'r Hwylusydd yn gweithio'n agos â'u cydweithwyr mewnol i dywys cleientiaid drwy wasanaeth Busnes Cymru, fel y bo'n briodol.

Mae'r Hwyluswyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc, yn cydweithio â'r gymuned 'Modelau Rôl' i Bobl Ifanc i gydlynu'r broses gynefino, taith y cleient, a gweithgareddau cyflawni ac yn cefnogi'r gwaith o weinyddu'r ddarpariaeth.

| | |
|---|---|
| | |
| **Cyfrifoldebau:** | **Addysg a Hyfforddiant** |
| 1. Mynychu digwyddiadau marchnata ac ymgysylltu, e.e. ffeiriau gyrfaoedd, arddangosfeydd busnes, digwyddiadau rhwydweithio, digwyddiadau rhanddeiliaid, a gweithgareddau cysylltiedig eraill, i hyrwyddo'r gwasanaeth a chyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol o ran ymgysylltu â chleientiaid.<br><br>2. Darparu gweithdai penodedig a chymryd rhan mewn gweminarau/seminarau eraill sy'n denu a chael cleientiaid i ddatblygu meddwl entrepreneuraidd, hunangyflogaeth a chychwyn busnes, e.e. Cychwyn eich Busnes eich Hun, hyrwyddo'r gwasanaethau cymorth busnes sydd ar gael. Ymgymryd â'r gweithgareddau hyn mewn modd proffesiynol a gwybodus gan ddefnyddio'r deunyddiau hyfforddi y cytunwyd arnynt.<br><br>3. Canfod a chytuno ar gynllun gweithredu i gefnogi cleientiaid penodol i oresgyn rhwystrau er mwyn cyflawni nodau entrepreneuraidd. Cydlynu a darparu cymorth ychwanegol i ddiwallu anghenion cleientiaid. Hwyluso trosglwyddiad pan fo cleientiaid yn gwneud cynnydd ac yn cael eu cyfeirio at gynghorydd, a/neu randdeiliaid trydydd parti. Tystiolaeth yn y gwaith papur digidol angenrheidiol, yn unol â gofynion contractiol a gweithdrefnau gweithredol.<br><br>4. Meithrin a chynnal ymgysylltiad â rhwydwaith effeithiol a strwythuredig o randdeiliaid i greu arweinwyr newydd ar y proffil gyda dangosyddion perfformiad allweddol o ran ymgysylltu ac ar gyfer cyfeirio a rhoi cymorth i gleientiaid. Sicrhau bod y rhwydwaith yn cynnwys amrywiaeth eang o sectorau cyhoeddus, e.e. Gyrfa Cymru, Twf Swyddi Cymru, Sefydliadau AU/AB, yn ogystal ag o'r Ecosystem ehangach, o'r sector preifat a'r trydydd sector, e.e. gwasanaethau cyfieithu, Chwarae Teg a sefydliadau eraill sy'n perthyn i'r Grŵp Tangynrychioli (URG), e.e. ACF, Cae a C4W. | **Dymunol**:<br>• Cymhwyster hyfforddi, e.e. PTLLS, Hyfforddi'r hyfforddwr<br>NEU<br>• Cymhwyster hyfforddi/mentora<br>NEU<br>• ILM Lefel 3 mewn Menter ac Entrepreneuriaeth.<br><br>**Profiad a Gwybodaeth**<br><br>**Hanfodol**:<br>• Profiad o gyflwyno i grwpiau amrywiol ar-lein a/neu wyneb yn wyneb.<br>• Dealltwriaeth o wahaniaethau lleol / rhanbarthol yn economi Cymru.<br>• Ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y cymorth busnes cyffredinol sydd ar gael gan y sectorau cyhoeddus a phreifat.<br><br>**Dymunol:**<br>• Darparu cyngor busnes i bortffolio amrywiol o entrepreneuriaid/busnesau newydd. *(e.e. gwasanaethau cymorth cyhoeddus fel Busnes Cymru, Cyngor ar Bopeth, neu wasanaethau preifat, fel cyfrifydda, cyfreithiol, yswiriant)*<br>NEU<br>• Profiad sylweddol o weithio mewn gwasanaethau a oedd yn darparu cymorth busnes ac o weithio'n uniongyrchol â chleientiaid *(e.e siarad â chleientiaid yn uniongyrchol, dros y ffôn, ar-lein neu wyneb yn wyneb)* |

| | |
|---|---|
| 5. Ar y cyd â'r Tîm Ymgysylltu, cyfrannu at sefydlu a chynnal rhwydweithiau cymunedol entrepreneuraidd lleol, sydd wedi'u cysylltu ledled Cymru. Annog cleientiaid i ymwneud â grwpiau/digwyddiadau rhwydweithio cymunedol ac ar-lein yn lleol i annog rhwydwaith cymorth cymheiriaid sy'n sicrhau cyfranogiad rheolaidd ac ystyrlon.<br><br>6. Rheoli portffolio o Fodelau Rôl a penodol yn unol â'r rhaglen o ddigwyddiadau Modelau Rôl y cytunwyd arni; cydlynu gweithgareddau Modelau Rôl, e.e. trefnu Modelau Rôl priodol ar gyfer digwyddiadau, trefnu gweithgareddau cynefino ar gyfer Modelau Rôl newydd, cwblhau'r gwaith papur angenrheidiol yn unol â gofynion contractau a gweithdrefnau gweithredol.<br><br>7. Darparu gweithgareddau drwy amrywiaeth eang o ddulliau; digidol, e.e. gweminarau ar lwyfannau digidol priodol, cyfarfodydd un-i-un ac 1-â-llawer ar-lein, yn ogystal â darpariaeth wyneb yn wyneb. Ymgymryd â'r gweithgareddau hyn mewn modd proffesiynol a gwybodus gan ddefnyddio'r deunyddiau hyfforddi y cytunwyd arnynt.<br><br>8. Darparu cymorth ychwanegol i gydweithwyr yn nhîm Busnes Cymru, e.e. helpu i greu cynnwys a darpariaeth ddigidol.<br><br>9. Mynd ati i reoli data cleientiaid yn gywir gan sicrhau bod yr holl weithgareddau yn cael eu cofnodi ar systemau digidol a ragnodwyd a bod tystiolaeth yn cael ei roi o ganlyniadau ymyrraeth a'u bod yn cael eu cofnodi mewn modd sy'n cydymffurfio.<br><br>10. Cynnal ymgysylltiad lleol/rhanbarthol effeithiol gyda chleientiaid, cydweithwyr a rhanddeiliaid i hyrwyddo'r gwasanaeth, gan sicrhau rhwydwaith atgyfeirio effeithiol.<br><br>11. Cynnal gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael i fusnesau bach a chanolig yn y rhanbarth gan y sectorau cyhoeddus a phreifat. | NEU<br>• Profiad sylweddol o weithio mewn diwydiant a oedd yn darparu cyngor busnes *(e.e cynghori gwahanol fusnesau ar amrywiaeth o faterion busnes, gyda chanlyniadau sy'n dangos sut roedd y cyngor a roddwyd wedi eu helpu i wella a/neu amcanion busnes eraill).*<br><br>**Sgiliau a Chymwyseddau**<br><br>**Hanfodol**:<br>• Sefydlu a chynnal rhwydwaith effeithiol o gysylltiadau yn unol ag amcanion perfformiad a'r strategaeth ranbarthol.<br>• Gallu pennu blaenoriaethau, trefnu amser, trefnu llwyth gwaith i sefydlu cerrig milltir, amcanion a chanlyniadau mesuradwy iddo'i hun.<br>• Cyfathrebu - llafar: Yn addasu ei arddull a'r manylion y mae'n eu rhoi yn ôl y gynulleidfa. Gallu rhyngweithio'n effeithiol â phobl; perswadio a dylanwadu ar bobl ar bob lefel; egluro/cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd gryno a rhesymegol.<br>• Cyfathrebu - ysgrifenedig: Addasu arddull a manylion i'r gynulleidfa. Cyflwyno gwybodaeth yn gywir, yn gryno ac yn rhesymegol.<br>• Gwasanaeth i Gwsmeriaid – Yn gweithio ac yn cydweithio'n effeithiol ag eraill, yn gallu nodi anghenion a darparu atebion ymarferol, yn rheoli disgwyliadau, yn addasu ei ddull unigol o ymdrin â phethau i sefyllfaoedd gwahanol.<br>• Dysgu/Gwella – mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am wybodaeth, i ddysgu o gamgymeriadau a hybu adborth adeiladol.<br>• Yn gallu gweithio'n gynhyrchiol ar adegau o bwysau ac addasu a derbyn bod amgylchiadau yn gallu newid.<br>• Gweithredu gydag uniondeb uchel, amddiffyn cyfleoedd cyfartal ac arwain trwy esiampl i gynnal moeseg a gwerthoedd sefydliadol. |

| | |
|---|---|
| 12. Mynd ati'n rhagweithiol i ddod o hyd i gleientiaid sydd wedi cael canlyniadau llwyddiannus ar gyfer astudiaethau achos ym maes marchnata a chysylltiadau cyhoeddus er mwyn hyrwyddo gwasanaeth Busnes Cymru.<br><br>13. Ymgymryd â dyletswyddau gan gynnig gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid mewn modd proffesiynol ac amserol.<br><br>14. Cefnogi Arweinydd y Tîm Ymgysylltu â'r Gymuned drwy nodi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus, e.e. gweithdrefnau, systemau gwaith. Mynd ati'n rhagweithiol i rannu gwybodaeth â rheolwyr er mwyn datblygu ymgysylltiad, cyrhaeddiad a darpariaeth gwasanaeth.<br><br>15. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol gan Dîm Rheoli Busnes Cymru ac/neu Menter Môn.<br><br>Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:<br>• Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy'r cymorth busnes a ddarperir i gleientiaid Busnes Cymru;<br>• Cynnal ymwybyddiaeth, hyfforddiant a DPP cyfredol ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth a sut i ddarparu gwasanaeth cynhwysol yn broffesiynol i bob cleient.<br>• Darparu gwasanaeth cynhwysol, yn unol â gwerthoedd a gofynion cytundebol Menter Môn.<br><br>*Mae'r uchod yn ddiffiniad eang o gyfrifoldebau'r swydd. Nid yw'n ystyried pob agwedd ar y swydd y gallai fod yn ofynnol i ddeiliad y swydd ei chyflawni. Mae hyblygrwydd yn hanfodol oherwydd bydd oriau gwaith deiliad y swydd yn cael eu pennu gan ofynion y busnes.* | • Profiadol wrth ddefnyddio llwyfannau digidol gyda sgiliau TG cryf, ee Microsoft Office/365.<br><br>**Arall**<br><br>**Hanfodol:**<br>• Y gallu i gyfathrebu yn hyderus/rhugl trwy'r Gymraeg a'r Saesneg<br>• Trwydded yrru ddilys y DU a defnydd o gerbyd wedi'i yswirio'n briodol, gyda MOT dilys (lle bo'n briodol), i deithio yn y rhanbarth yn rheolaidd i gyflawni dyletswyddau, ee mynychu digwyddiadau, cyfarfodydd. (Angen tystiolaeth)<br>• Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) boddhaol. |